**Gwahoddiad i Dendro**

Cwrt Padel Dros Dro, Parc Griffin, Porthcawl

Trwydded ar gyfer meddiannaeth dros dro yn 2026



**GWAHODDIR CYNIGION GAN BARTÏON Â DIDDORDEB**

This form is available in English / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

BRIDGEND County Borough Council

## 1. Cefndir

Mae Porthcawl yn dref arfordirol ym Mwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, De Cymru. Mae Porthcawl â thraddodiad hir o gynnal ffair yn y dref sy’n atyniad arbennig i ymwelwyr a hefyd yn gyrchfan hamdden i bobl leol. Gyda chau'r ffair barhaol bresennol yn Hydref 2025, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llywodraeth Cymru yn dymuno dod ag ystod o ddefnyddiau dros dro i Borthcawl fel rhan o'r strategaeth adfywio ehangach.

## 2. Trwydded

Mae cyfle cyffrous wedi codi am drwydded i redeg Cwrt Padel dros dro ym Mharc Griffin, Porthcawl. Mae'r Cyngor yn cynnig y drwydded ar dir sy'n cynnwys yr hen Gyrtiau Tenis ym mhen deheuol y parc gyda'r lleoliad a'r maint a ddangosir wedi'u hamlinellu'n goch ar y cynllun. Mae'r cyrtiau hyn bellach yn ddiangen gan fod cyrtiau newydd wedi'u gosod ym mhen gogleddol y parc a bydd yr hen gyrtiau’n cael eu symud yn y dyfodol i ganiatáu adeiladu ffordd fynediad newydd fel rhan o'r cynlluniau adfywio ehangach. Ni chaniateir masnachu o dan unrhyw amgylchiadau o unrhyw leoliad heblaw yr hyn a nodir ar y cynllun. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adleoli'r ddarpariaeth i safle arall.

Byddai'r Drwydded o 1 o Ebrill i 1 o Hydref 2026

## 3. Gofynion

Dylai'r ddarpariaeth gynnwys y canlynol:

- Isafswm o 1 a hyd at 2 Gwrt Padel
- Cyrtiau Padel i fod yn gwbl symudadwy
- Bydd y trwyddedai yn gyfrifol am ddarparu ei gyflenwad pŵer a dŵr ei hun (os oes angen)

## 4. Telerau'r Drwydded

Rhaid i'r Trwyddedwr a'r Trwyddedai gytuno ar delerau manwl y drwydded. Disgwylir i'r prif dermau gynnwys y canlynol:

- Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod y cyrtiau yn cael eu reoli’n briodol gan gynnwys defnyddio systemau archebu yn ôl yr angen

- Y defnydd a ganiateir fydd gweithredu'r Cwrt Padel dros dro yn ystod cyfnod y Drwydded yn unig ac at unrhyw ddiben arall o gwbl. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd na defnyddiwr arall o dan unrhyw amgylchiadau.

- Byddai'r Drwydded am uchafswm o 6 mis

- Bydd y Trwyddedai yn indemnio Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn erbyn unrhyw hawliadau, camau gweithredu, gofynion, costau neu achosion cyfreithiol trydydd parti, gan gynnwys am bob anaf, boed yn angheuol ai peidio, beth bynnag neu sut bynnag y maent yn codi o ganlyniad i roi'r Drwydded arfaethedig.

- Rhaid i'r Trwyddedai gyflwyno tystiolaeth ddogfennol o'r polisïau yswiriant hynny a wnaed gyda Chwmni Yswiriant safonol, yn ôl gofynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

- N. B. Bydd angen dogfennau yswiriant, gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, cyn i unrhyw drwydded gael ei rhoi

- Bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am dalu ffioedd syrfewyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef swm o £650 (chwe chant a hanner o bunnoedd) heb gynnwys TAW, a chostau cyfreithiol priodol y Cyngor o £650 (chwe chant a hanner o bunnoedd) ar gyfer paratoi'r Drwydded a'r hyn sy'n gyfatebol iddi.

**5. Ffi'r Drwydded**

Ffi'r Drwydded fydd y swm a nodir ar y ffurflen dendr lwyddiannus (wedi'i fynegi fel cyfanswm Ffi'r Drwydded) a bydd yn eithrio pob treth ac unrhyw wariant arall y gellir eu codi ar y consesiwn.

**6. Dogfennau ar gyfer Cyflwyno Cynigion, Dyddiad Cau, a'r Cyfeiriad ar gyfer Cyflwyno Cynigion**

Bydd gofyn i gynigwyr gyflwyno cynnig manwl sy'n cynnwys:

**A. Cynnig Ffi**
**B. Datganiad o Fwriad – Cyfeiriwch at Atodiad A am ragor o fanylion**

Rhaid derbyn cynigion erbyn **Canoldydd (12yp), 26ain o Chwefror 2026.**

Dylai partïon sydd â diddordeb ymateb drwy ddarparu cynigion o fewn yr amserlen hon i'r cyfeiriad e-bost diogel canlynol:

griffinparkpadel@bridgend.gov.uk

Ni fydd swyddogion y Cyngor yn gallu cael mynediad at y cyfeiriad e-bost hwn tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cynigion. Ni ystyrir bod cynigion wedi'u derbyn nes bod y partïon sy'n cynnig wedi derbyn cydnabyddiaeth o dderbyn eu e-bost.

**Dewis y cynigydd a ffefrir a meini prawf sgorio wedi'u pwysoli**

Bydd y Cynigydd a Ffefrir yn cael ei ddewis ar ôl i'r Cyngor adolygu ac asesu pob cynnig.

Bydd y Cyngor yn sgorio ac yn graddio pob un o'r cynigion ar y sail ganlynol:

a. Y cynnig rhent a gynigir (pwysoliad o 40%) yn seiliedig ar y "Cais Rhent" a gyflwynwyd gan y cynigydd;

b. Datganiad o fwriad (pwysoliad o 60%) yn seiliedig ar ansawdd y cynnig, pwynt gwerthu unigryw'r busnes arfaethedig a pha mor dda y mae'n cydweddu â’r ardal gyfagos.  Cyfeiriwch at ganllawiau a meini prawf asesu’r Datganiad o Fwriad sydd ynghlwm yn atodiad A.

**Deddf Camliwio**

Mae'r eiddo yn cael ei gynnig yn amodol ar gontract ac ar sail diragfarn. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gynnig a wneir ac nid yw'n rhwymedig i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig ar gyfer yr eiddo.

Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y manylion hyn yn gywir, nid yw’r Cyngor yn gallu derbyn unrhyw atebolrwydd o gwbl am unrhyw gamliwio a wneir naill ai yn y manylion hyn neu ar lafar. Rhaid i unrhyw barti sydd â diddordeb fodloni eu hunain ynghylch cywirdeb y manylion hyn. Mae'r manylion wedi'u nodi fel canllaw cyffredinol yn unig ac nid ydynt yn ffurfio unrhyw ran o gynnig neu gontract.